WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 13 Rhagfyr 2018

Archwilio Cyfrifon Cynghorau Trefi

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 14 Tachwedd 2018, yn gofyn am wybodaeth ynghylch Archwilio Cyfrifon Cynghorau Trefi. Er hwylustod i chi, rydw i wedi cynnwys eich cwestiynau isod cyn amlinellu ein hymateb.

A aeth y gwaith yma y allan i dendr?
Do, trwy Hysbysiad OJEU o dan y Broses Gyfyngedig.

Os do, faint o gwmniau wnaeth gynnig am y gwaith ac ar ba sail oedd y cwmni yn cael ei ddewis?

Gwnaeth pum cyflenwr ddatgan diddordeb gyda thri yn cynnig am y gwaith. Yn y cam amodi gwnaethom ystyried safle economaidd ac ariannol, y gallu i ymateb i faterion daearyddol ac ieithyddol, gweithgaredd busnes a hanes blaenorol, gallu cyflenwr, ansawdd archwilio a sicrwydd. Yn y cam tendro gwnaethom ystyried sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, deallusrwydd materion yr Archwilydd Cyffredinol a chyrff sy'n cael eu harchwilio yng Nghymru, trefniadau penodol ar gyfer ansawdd, rhyngweithio proffesiynol a chyfathrebu.

Beth yw hyd y cytundeb yma?

3 mlynedd i ddechrau o 2015-16 i 2017-18, wedi'i hymestyn dwy flynedd fel bod y contract yn parhau tan fod archwiliadau 2019-20 wedi'u cwblhau.

Beth yw cost y cytundeb?
Mae oddeutu £50,000 yn daladwy i BDO yn flynyddol.

Oes system "gosbau" ar waith am fethu a gwneud y gwaith mewn unrhyw fodd?

Mae'r contract yn caniatáu am welliannau yn sgil perfformiad annigonol y gwasanaethau.

Faint o gynghorau Cymru y mae BOO yn delio a nhw?

367 ar amser y tendr

Faint o staff y mae BDO wedi'i ddyrannu i wneud y gwaith?

Mae wyth aelod o staff ynghlwm â chynnal y gwaith gyda dau arweinydd ymgysylltu yn darparu trosolwg a monitro ansawdd.

Hefyd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol: fel rhan o'r cytundeb tendro pa ofynion ieithyddol oedd yn disgwyl i'r cwmni llwyddiannus all ddelio gyda nhw ac i ba raddau yr oedd y cwmni a enillwyd y cytundeb yn cyflawni'r gofynion hynny?

Yng ngham cyntaf y broses tendro gofynnom am dystiolaeth gan ddarparwyr posib am eu gallu i weithio ar draws Cymru a chefnogi awyrgylch dwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau i gyrraedd anghenion cyrff sy'n cael eu harchwilio a thrigolion sy'n dymuno cyfathrebu'n Gymraeg, gallu i weithio ar draws pob lleoliad yng Nghymru a chymhwysedd iaith gweithwyr i allu cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd BDO wedi gallu dangos dros 12 mlynedd o brofiad o archwiliadau cynghorau cymuned yn y Canolbarth a'r Gorllewin, gyda 314 archwiliad gyda chynghorau dwyieithog. Gwnaethant ddarparu eu holl ohebiaeth gyntaf yn Gymraeg a Saesneg i gyrraedd anghenion deddfwriaethol, gyda gwasanaeth cyfieithydd i ddarparu gallu ychwanegol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd rydw i wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth